



Trwy e-bost

Kirsty Williams AS  
Y Gweinidog Addysg

23 Chwefror 2021

Annwyl Weinidog

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr a'ch cyfarwyddyd amgaeedig ar 19 Chwefror 2021.

Ystyriodd ein Bwrdd eich datganiad ysgrifenedig drafft ynghylch dull polisi Llywodraeth Cymru; yn ogystal ag argymhellion y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflenwi; barn ein grŵp rhanddeiliaid ein hunain; cyngor ein swyddogion; a'r cyddestun ehangach y dylid edrych ar benderfyniadau ynghylch asesu cymwysterau sydd i'w ddyfarnu yn haf 2021 o'i fewn. Ystyriwyd y materion hyn yn ei gyfarfodydd Bwrdd ar 18 a 19 Ionawr 2021, ac yna eto ar 28 Ionawr 2021.

Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr, penderfynodd y Bwrdd, mewn egwyddor, reoleiddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yn unol â'r dull polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru fel y'i mynegir yn eich datganiad ysgrifenedig drafft ac argymhellion y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflenwi fel y'u cyflwynwyd yn eu gohebiaeth â chi. Cytunodd y Bwrdd y gellid cadarnhau'r penderfyniad hwn pe bai'ch cyfarwyddyd i raddau helaeth yr un fath â'r datganiad ysgrifenedig. Mae hyn yn caniatáu inni gadarnhau'r penderfyniad heb yr angen i gynnull y Bwrdd.

Fel rhan o'ch dull polisi, nodwn eich bwriad i gyflwyno proses lle bydd canolfannau'n gallu cymryd rhan mewn deialog broffesiynol gyda'i gilydd i drafod eu proses ar gyfer pennu graddau, cymhwyso'r broses honno a'u canlyniadau cyn cyflwyno graddau i CBAC. Bydd hyn y tu allan i'n gwaith a'n rheoliadau ond cyfeirir ato, fel y bo'n briodol, mewn unrhyw ganllawiau a ddatblygwn. Rydych yn glir na fydd hyn yn disodli nac yn cymryd lle unrhyw broses sicrhau ansawdd allanol a ddatblygwn gyda CBAC. Rydym yn cefnogi eich nod polisi o gynyddu tryloywder ar draws canolfannau, ac rydym yn cydnabod nad yw hon yn broses ar gyfer cymedroli canlyniadau yn erbyn safon genedlaethol ddiffiniedig.

#### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



#### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr, ystyriodd y Bwrdd y meysydd pryder y dylid eu codi gyda chi yn yr ymateb hwn. Rydym i gyd yn cydnabod nad oes unrhyw ddulliau heb risg na phroblemau yn gysylltiedig â hwy ynghylch dyfarnu graddau yn haf 2021. Ond mae amgylchiadau yn mynnu bod yn rhaid inni fwrw ymlaen â dull sy'n adeiladu ar wersi a ddysgwyd o haf 2020, sy'n caniatáu dyfarnu canlyniadau i ddysgwyr fel y gallant symud ymlaen, ac yn derbyn cyfyngiadau'r dull polisi.

Rydym yn nodi isod y prif gyfyngiadau a risgiau.

## **Dilysrwydd**

- Bydd graddau'n cael eu pennu ar lefel y ganolfan heb unrhyw ffordd effeithiol o reoli canlyniadau ar lefel genedlaethol. Gallai hyn arwain at ganlyniadau gradd hael sy'n ymddangos yn annodweddiadol wrth gael eu hystyried yn erbyn blynyddoedd blaenorol. Derbyniwyd hyn fel nodwedd o ganlyniadau'r graddau terfynol yn haf 2020 ac nid oedd sylwebyddion o'r farn ei fod yn peri pryder o ran hyder y cyhoedd. Rhaid inni i gyd dderbyn y gallai canlyniadau gradd ymddangos yn hael unwaith eto. O ystyried y cyd-destun o aflonyddu ar addysgu a dysgu, gallai hyn gael effaith negyddol ar hyder y cyhoedd ond bydd angen ei dderbyn fel un o ganlyniadau na ellir ei osgoi y dull a fabwysiadwyd. Fe fydd yna ganlyniadau tymor hwy hefyd mewn perthynas â safonau perfformiad yn y blynyddoedd i ddod y bydd angen eu hystyried yn ofalus wrth inni symud ymlaen.
- Gallai'r diffyg rheolaethau arferol a ddefnyddir i gynnal safonau wrth ddyfarnu graddau hefyd greu problemau i sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach na fyddant yn gallu dibynnu ar wybodaeth hanesyddol am ganlyniadau graddau wrth ystyried eu strategaethau ynghylch y cynigion a wnânt. Mae risgiau'n gysylltiedig â hyn. Er enghraifft, gallai hyn arwain at gynnig lleoedd mewn Addysg Uwch i lai o ddysgwyr, canlyniadau'r graddau sy'n ofynnol mewn cynigion yn cael eu cynyddu neu rai dysgwyr yn gorfod gohirio dilyniant am flwyddyn.
- Mae graddau fel arfer yn tystio i lefel benodol o wybodaeth, dealltwriaeth a neu sgiliau, y dibynnir ar gasgliadau ohonynt wedyn ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â dilyniant neu gyflogaeth. Gan y bydd graddau'n cael eu pennu ar ôl cwblhau'r dysgu penodedig yn rhannol, efallai na fydd rhanddeiliaid yn gallu dibynnu ar raddau yn y ffordd arferol.
- Mae canlyniadau cymwysterau fel arfer yn seiliedig ar astudio corff cyffredin o gynnwys pwnc. O ystyried yr aflonyddwch i addysgu a dysgu, nid yw dysgwyr yn debygol o fod wedi cwblhau'r cwrs astudio llawn ac felly bydd ganddynt fylchau mewn gwybodaeth y bydd angen eu llenwi er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu haddysg. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi'r mater hwn a'i bod yn bwriadu gweithio gyda'r sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach i gefnogi dysgwyr i drosglwyddo.

## Dibynadwyedd

- Bydd CBAC yn cyflwyno fframwaith asesu ar gyfer pob cymhwyster, a fydd yn ceisio cefnogi cysondeb mewn dyfarniadau ledled Cymru. Er y gwneir pob ymdrech i gefnogi cysondeb o ran dull gweithredu, ni all y broses ei warantu yn y ffordd y byddai arholiadau yn gwneud fel arfer.
- Croesewir trafodaethau rhwng canolfannau, a fydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o drefniadau sy'n cael eu sefydlu gan Lywodraeth Cymru, fel ffordd o wella tryloywder ar draws canolfannau. Er y bydd yn gwella tryloywder ac yn darparu mecanwaith ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, mae'r broses hon yn debygol o fod o werth cyfyngedig fel mecanwaith ar gyfer cynyddu cysondeb ac ni fydd yn rheoli canlyniadau cyffredinol.
- Rydym yn croesawu blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a cholegau cyn gynted â phosibl. Ond mae risg na fydd rhai dysgwyr yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb mewn digon o bryd i gwblhau asesiadau yn eu canolfan. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i asesiadau gael eu cwblhau gan ddysgwyr gartref o dan amodau llai rheoledig, a allai effeithio ar ddibynadwyedd y dystiolaeth a ddefnyddir i bennu graddau.
- Efallai bod asesiadau wedi'u cwblhau lle nad oedd dysgwyr yn ymwybodol y byddent yn cyfrannu at bennu'r radd ar gyfer cymhwyster gyda chanlyniadau pwysig. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai na fydd dysgwyr wedi'u hysgogi i wneud eu gorau ac efallai na fydd y dystiolaeth o ganlyniad yn gynrychioliadol o'u gwir lefel cyrhaeddiad. Bydd angen i ganolfannau gofio hyn wrth ystyried y dystiolaeth y maent yn ei defnyddio i gefnogi'r radd y maent wedi'i phennu a chynnwys unrhyw ystyriaethau o'r fath yn eu rhesymeg dros ddyfarnu gradd benodol.
- Mae llawer o randdeiliaid wedi cefnogi proses o 'gymedroli' fel ffordd o reoli canlyniadau a sicrhau cysondeb ar draws canolfannau ar lefel genedlaethol yr haf hwn. Ond nid ydym yn credu bod yna broses gymedroli a all gyflawni'r pwrpas a fwriadwyd yn yr amgylchiadau presennol. O ystyried bod y penderfyniad hwn yn debygol o ddod o dan reolau craffu, hoffem nodi'r sail ar gyfer ein penderfyniad fel bod gwell dealltwriaeth o'n rhesymu:
  - Bydd y dystiolaeth a gyflwynir gan ganolfannau yn anghyson ac felly yn anodd /amhosibl i CBAC ei hafalu ar draws canolfannau. Hyd yn oed os oes tebygrwydd yn yr asesiadau a ddefnyddir, mae'n debygol y bydd gwahaniaethau mewn cyd-destun ar draws canolfannau a fydd yn tanseilio unrhyw broses gymedroli. Nid ydym yn credu, felly, y gallai cymedrolwyr CBAC wneud dyfarniadau cywir a dibynadwy.
  - Bydd dyfarniadau am Raddau a Benderfynir gan Ganolfannau yn seiliedig ar farn academaidd gyfannol, gan dynnu ar dystiolaeth asesu i ategu'r farn hon. Nid ydym yn credu y byddai gan CBAC sail ddigon

cadarn i herio barn academiaidd gyfannol, a byddai unrhyw ddull o gofnodi dyfarniadau i alluogi proses allanol o'r fath yn rhy feichus i ganolfannau ei weithredu.

- Credwn fod cymedrolwyr yn debygol o fod yn dueddol o gytuno i osgoi gwrthdaro ynghylch barn academiaidd, sy'n debygol o danseilio unrhyw broses o herio.
- Byddai disgwyl i gymedrolwyr fod yn gyson wrth gymhwyso 'safonau' sy'n annhebygol, o ystyried yr ystod o dystiolaeth ac amrywiad mewn dull ar draws canolfannau. Ychydig o amser sydd i gymedrolwyr gysniadoli syniad cyffredin o safonau graddau, ac mae anhawster cyffredinol i gyflawni'r nod hwn.
- Byddai problemau sylweddol ynghylch llwyth gwaith yn gysylltiedig â chyflwyno mwy o gamau mewn unrhyw broses y bwriedir iddi fod yn syml a blaenoriaethu dysgu ar gyfer dilyniant. Mae ein hymgysylltiad ag undebau'r athrawon wedi dangos eisoes bod llwyth gwaith mewn perthynas â chymedroli yn bryder sylweddol.
- O ystyried y sefyllfa a fabwysiadwyd yn y pen draw yn haf 2020, credwn na fyddai yna fecanwaith cymedroli a fyddai'n dderbyniol yn gyhoeddus lle gallai CBAC ymyrryd ynghylch graddau unigol yn seiliedig ar yr hyn a fyddai'n sylfaen dystiolaeth wan. Mae'r model yn seiliedig ar fwy o ymddiriedaeth ym marn athrawon, yr ydych eisoes wedi ymrwmo i beidio â'u newid.
- Mae adroddiad terfynol yr Adolygiad Annibynnol yn nodi bod canolfannau yn disgwyl i gymedroli fod ar waith yn haf 2020 ac roeddent yn dibynnu ar hyn i ymdrin â chanlyniadau rhy hael. Mae'r dull y cytunwyd arno ar gyfer haf 2021 yn rhoi ymddiriedaeth mewn canolfannau i bennu'r graddau cywir ar gyfer eu dysgwyr. Rydym yn pryderu y gallai unrhyw broses gymedroli gael canlyniad anfwriadol o ddisodli cyfrifoldeb am gywirdeb graddau o ganolfannau a chynyddu haelioni Graddau a bennir gan Ganolfannau gan ddisgwyl y bydd yr haelioni hwn rywsut yn cael ei leihau.

## Hydrinedd

- Bydd y model a fabwysiadwyd yn rhoi llwyth gwaith ychwanegol i athrawon, darlithwyr, uwch arweinwyr a staff y canolfannau. Mae hyn yn ychwanegol at ddyletswyddau addysgu a dysgu ar adeg sydd eisoes yn anodd iawn i bawb. Er ein bod yn ymwybodol o broblemau ynghylch llwyth gwaith ac yn ceisio bod mor gymesur â phosibl, fe fydd tensiynau y bydd angen eu derbyn. Er enghraifft, mae'n bwysig bod yna gofnod o'r dystiolaeth a'r rhesymeg sy'n sail i'r farn academiaidd a ddefnyddiwyd i gynhyrchu Gradd a Benderfynir gan y Ganolfan, gan y bydd hyn yn helpu i gyfiawnhau'r radd i'r dysgwr. Mae hyn yn bwysig ar gyfer tryloywder, ac yn gwarchod y ganolfan os yw'r dysgwr yn

gofyn am adolygiad o'r radd fel rhan o'r broses apelio. Ond bydd y gwaith cadw cofnodion hwn yn anochel yn cynyddu'r llwyth gwaith.

- Mae yna risg y bydd ffocws gweithgaredd mewn canolfannau yn symud o addysgu a dysgu i gwblhau tasgau asesu i ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu Graddau a Benderfynir gan Ganolfannau. Gallai creu portffolios o dystiolaeth gynyddu'r llwyth asesu o'i gymharu ag arholiadau neu asesiadau penodol. Er nad oes unrhyw ofynion gorfodol ynglŷn â'r dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith o bennu gradd, mae'r pwyslais yn ein canllawiau ni ar ansawdd y dystiolaeth yn hytrach na'i maint.
- Efallai y bydd ymgeiswyr preifat yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ganolfan sy'n barod i dderbyn ymgais yn y ffordd arferol. Efallai y bydd angen trefniadau amgen fel asesiadau strwythuredig a fyddai'n fwy tebyg i arholiadau.
- Mae'r model yn seiliedig ar ganolfannau yn cymryd cyfrifoldeb am bennu graddau. Mae'n bwysig er tegwch i ddysgwyr eu bod hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am adolygiadau o farn academaidd fel rhan o'r broses apelio. Hyd yn oed gyda llwybr apelio at CBAC mae yna risg y gallai rhai achosion arwain at anghydfodau hir sy'n anodd eu datrys.
- Hyd yn oed gyda mwy o amser i weithredu dull amgen yn 2021 na 2020, mae'r llwyth gwaith i ganolfannau, CBAC a Chymwysterau Cymru weithredu'r dull hwn yn sylweddol iawn a chyda'r ymdrechion gorau posibl, bydd yn dal i gymryd peth amser i'w weithredu.

## Rheoli rhagfarn

- Mae hyblygrwydd y model yn caniatáu i athrawon a darlithwyr greu eu hasesiadau eu hunain. Ond mae angen sgiliau penodol i ddylunio deunyddiau asesu crynodol a ddefnyddir mewn cymwysterau gyda chanlyniadau pwysig. Mae peth pryder efallai na fydd asesiadau wedi'u cynllunio'n ddigon da i ymdrin â materion cydraddoldeb. Er mwyn lliniaru'r risg hon, byddwn yn tynnu sylw canolfannau at ein canllawiau '*Mynediad Teg drwy Ddylunio*', sydd fel arfer wedi'i fwriadu ar gyfer cyrff dyfarnu, a bydd CBAC yn darparu hyfforddiant ar ddylunio asesiadau. Yn ogystal, bydd CBAC yn darparu cyn-bapurau wedi'u haddasu i ganolfannau eu defnyddio naill ai fel asesiadau annibynnol neu i ddewis cwestiynau sydd wedi'u hasesu o ran effaith ar gydraddoldeb ohonynt.
- Mae tystiolaeth o Raddau a Aseswyd gan Ganolfannau a ddyfarnwyd yn haf 2020 yn dangos bod bylchau cyrhaeddiad annodweddiadol yn gysylltiedig â rhai nodweddion gwarchoddedig. Gallai hyn gefnogi honiad bod rhagfarn yn bresennol yn y dyfarniadau hyn. Gellir sefydlu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o ragfarn ymwybodol ac anymwybodol, ond bydd yn rhaid i bob canolfan dderbyn cyfrifoldeb am ystyried materion cydraddoldeb a

sicrhau bod ei dyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus wedi'i chyflawni.

- Fel rheol mae gan arholiadau drefniadau penodol iawn sy'n caniatáu i ddysgwyr ag anghenion penodol gael mynediad teg at asesiadau (er enghraifft 25% o amser ychwanegol). Yn nhrefniadau 2021, gellir defnyddio tystiolaeth wrth bennu gradd dysgwr lle nad oedd trefniadau mynediad addas ar waith, gan fod yr asesiad yn cael ei ystyried yn un nad oedd mor bwysig pan gynhaliwyd ef. Bydd angen i ganolfannau sicrhau bod trefniadau mynediad priodol wedi'u hystyried wrth bennu graddau.
- Yn aml mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth yn eu dysgu a'u hasesu gan sawl arbenigwr. Dylai graddau gael eu pennu gan ganolfannau sydd â mewnbwn digonol gan athrawon arbenigol, a bydd angen i ganllawiau sicrhau eu bod yn pennu graddau gan ddefnyddio'r ystod lawn o fewnbwn priodol.

## **Cymharu**

- Mae'n debygol y bydd llawer o nodweddion yn y dull a fabwysiadwyd ar gyfer Cymru sy'n debyg i rai awdurdodaethau eraill ac sy'n ystyried problemau tebyg, megis yr anallu i reoli'n effeithiol ar gyfer safonau perfformiad. Mae yna risg y bydd gwahaniaethau cynyddol mewn canlyniadau ar draws cenhedloedd a allai effeithio ar hyder y cyhoedd yn y tymor hir mewn canlyniadau.
- Mae trefniadau yng Nghymru wedi cael eu datblygu ymhellach na threfniadau mewn awdurdodaethau eraill. Er bod hyn o fudd i ddysgwyr a chanolfannau yng Nghymru, a fydd yn cael eglurdeb yn gynt na dysgwyr mewn awdurdodaethau eraill, mae yna risg y bydd gwahaniaethau yn dod i'r amlwg y mae rhai rhanddeiliaid yn eu hystyried yn anfanteisiol. Ar y cyfan, credwn fod hon yn risg sy'n werth ei derbyn er mwyn gwneud cynnydd cyflym, darparu eglurder ac ymdrin â'r materion lles a allai ddeillio o ansicrwydd.

## **Ystyriaethau eraill**

- Mae'n amlwg o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid bod cefnogaeth eang i'r model a fabwysiadwyd, ond nid yw hyn yn gyffredinol ac mae yna elfennau ohono sy'n debygol o ddod o dan bwysau parhaus. Mae'n hanfodol fod pob parti yn dryloyw ynghylch cyfyngiadau'r model fel nad yw pryderon yn dod i'r golwg ar adeg y canlyniadau.
- Mae'r prif ffocws yn awr i raddau helaeth ar drefniadau ar gyfer yr haf hwn. Ond dros y misoedd nesaf gobeithio y bydd effaith y pandemig yn lleihau ac y gellir cael mwy o sicrwydd ynghylch trefniadau asesu ar gyfer 2022 a thu hwnt. Rydym wedi sefydlu ffrwd waith ar wahân i edrych ar oblygiadau tymor hir y

mesurau brys y bu'n rhaid eu rhoi ar waith. Byddwn yn ysgrifennu atoch maes o law i nodi ein ffordd o feddwl.

- Rhennir trefniadau llywodraethu ar gyfer yr haf hwn ar draws sawl sefydliad, sy'n darparu tirwedd gwneud penderfyniadau cymhleth. Er enghraifft:
  - mae'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflenwi, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyngor am bolisi, bellach yn rhan ddylanwadol o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu.
  - bydd cynlluniau ar gyfer trafodaethau rhwng canolfannau y tu allan i'n fframwaith rheoleiddio gan nad ydym yn rheoleiddio canolfannau, Awdurdodau Lleol na Chonsortia Rhanbarthol.
  - mae'r ateb i ymgeiswyr preifat yn debygol o fynnu bod Awdurdodau Lleol yn ymgymryd â rhywfaint o rôl gydlyn. Mae hyn yn rhywbeth y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn arwain yn ei gylch.

Mae'n bwysig fod trefniadau llywodraethu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan bawb sy'n gysylltiedig â hwy er mwyn sicrhau, er bod sefydliadau'n gweithio ar y cyd, ei bod yn amlwg pa rôl y mae pob un yn ei chwarae yn y trefniadau a bod pob sefydliad hefyd yn cadw eu cyfrifoldebau unigol a'u dyletswyddau statudol.

- Bydd angen i waith sylweddol gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC gyda chydweithwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon i sicrhau bod nodweddion pwysig fel amseriad y canlyniadau, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu cydgysylltu ar draws awdurdodaethau ac yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol.
- Bydd yn rhaid i ganolfannau gynnal Asesiad Effaith ar Brosesu Data lleol ac o bosibl newid unrhyw hysbysiad prosesu teg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y GDPR ac nid mewn perygl o erlyniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ein nod yw rhoi arweiniad i ganolfannau ar y mater hwn.
- Mae'r model ar gyfer haf 2021 yn annhebygol o ddarparu rôl ddigon sylweddol i CBAC ofyn am y ffi mynediad llawn. Hon fydd yr ail flwyddyn iddynt gael eu hunain yn y sefyllfa hon ac rydym yn pryderu y bydd hyn yn erydu eu cronfeydd wrth gefn ac y gallai beri rhai risgiau tymor hir. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu rhywfaint o arian grant i gefnogi eu cynaliadwyedd tymor hir fel rhan hanfodol o system addysg Cymru.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y llythyr hwn, nid oes unrhyw ddulliau heb risg na phroblemau ar gael ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn a bydd risgiau eraill yn dod i'r amlwg. Ond mae dulliau amgen sy'n cynnwys asesiad allanol wedi'u harchwilio a'u gwrthod wrth i'r pandemig ddatblygu. Ni welwn unrhyw ddewis arall sy'n dderbyniol yn gyhoeddus ond bwrw ymlaen fel y cynigiwyd.

Byddwn yn sicrhau bod eich swyddogion yn cael gwybod am lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu a'r problemau y deir ar eu traws wrth ei weithredu.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus i'n gwaith a'r ffordd adeiladol yr ydym wedi gallu cydweithio â'ch swyddogion.

Yr eiddoch yn gywir,



David B Jones OBE DL  
Cadeirydd



Philip Blaker  
Prif Weithredwr